**Rhif: WG30159**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Adolygiad o Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007

Ebrill 2017

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-9403-9

## Rhagarweiniad:

### Pwrpas yr Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 27 Hydref 2016 a daeth i ben ar 5 Ionawr 2017. Roedd yn gofyn am farn pobl am y newidiadau arfaethedig i Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007 (Rheoliadau AEA).

Mae Rheoliadau AEA yn trosi rhwymedigaethau rhyngwladol fel y'u rhoddir ar waith drwy Gyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd (Cyfarwyddeb AEA). Maent yn sicrhau bod unrhyw brosiectau sy'n debygol o effeithio ar yr amgylchedd yn cael eu hasesu'n ddigonol cyn iddynt gychwyn. Mae proses sgrinio AEA yn gwerthuso effaith gwaith gwella amaethyddol arfaethedig ar yr amgylchedd ac ar dirwedd ehangach Cymru. Mae Rheoliadau AEA yn ceisio amddiffyn safleoedd cynefinoedd ffermdir a thir o bwys hanesyddol rhag gweithgareddau amaethyddol a allai eu difrodi, yn ogystal â chadw adnoddau naturiol gwerthfawr Cymru. Mae amcanion Rheoliadau AEA yn cyfrannu tuag at nifer o nodau a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan greu yn benodol Gymru sy'n iachach, yn fwy cydnerth ac yn fwy cyfrifol ar raddfa fyd-eang.

Wrth ymgynghori ynghylch adolygu Rheoliadau presennol AEA, cynigiwyd nifer o newidiadau i'r fframwaith rheoleiddiol, yn rhannol er mwyn symleiddio a chryfhau'r rheoliadau, ac yn rhannol i drosi gofynion gorfodol a gyflwynwyd drwy Gyfarwyddeb 2014/52/EU a oedd yn diwygio Cyfarwyddeb AEA.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru drosi agweddau gorfodol Cyfarwyddeb AEA sydd wedi'i diweddaru tra bo'r Deyrnas Unedig yn dal yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Ni ddisgwylir i'r diwygiadau hyn a'r newidiadau ychwanegol arfaethedig newid sut y mae gweithdrefn AEA yn gweithio ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd.

### Y Cyfnod Ymgynghori a Dosbarthu

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdai cyn-ymgynghori â'r prif randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr undebau'r ffermwyr a'r cyrff amgylcheddol yng ngwanwyn 2016. Hwyluswyd y digwyddiadau hyn gan ADAS a bu canlyniad yr ymarfer cyn-ymgynghori'n help i Lywodraeth Cymru baratoi ei chynigion terfynol ar gyfer yr ymgynghoriad. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos ynghylch adolygu Rheoliadau AEA ar 27 Hydref 2016. Roedd y ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac fe'i dosbarthwyd yn eang drwy'r e-bost hefyd ymhlith partïon a rhanddeiliaid â diddordeb yn y maes.

Cafwyd saith ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r rhain i gyd wedi'u hystyried a'u dadansoddi er mwyn llunio ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru.


**Crynodeb o'r Ymatebion**

Rhestr o'r ymatebwyr:
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cyfoeth Naturiol Cymru
Parciau Cenedlaethol Cymru
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
RSPB

Gofynnwyd cyfanswm o 14 o gwestiynau wrth ymgynghori. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r cynigion yn gadarnhaol ac yn gefnogol, er bod rhanddeiliaid wedi dweud bod ambell beth yn eu poeni. Ystyriwyd y rhain yn llawn wrth ddatblygu ymateb Llywodraeth Cymru a'i phenderfyniad ynghylch diwygio Rheoliadau AEA.

**Cwestiwn 1**

**A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i ychwanegu diffiniad o dir lled naturiol i Reoliadau AEA? Os nad, nodwch pam os gwelwch yn dda.**




Roedd 71% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Dywedodd 29% fod angen rhagor o eglurhad ynghylch sut y diffinnir 'tir lled naturiol' a 'phrosiect amgylcheddol' er mwyn osgoi dryswch ymhlith ffermwyr a rhanddeiliaid eraill. Roedd rhai'n poeni y gallai'r term "lled naturiol" gael ei ddrysu â "wedi'i led wella" a dywedodd un o'r ymatebwyr fod angen diffinio cysyniad "25% o rywogaethau a heuir" yn fanylach ac efallai y byddai'n well cynnwys hyn yn y canllawiau yn hytrach nag yn y rheoliadau.

Roedd un ymatebydd yn meddwl bod y cynnig yn rhy gyfyng, ac y gallai hynny olygu bod tir o werth amgylcheddol o bwys a chynefin i adar a

rhywogaethau eraill yn y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth yn cael eu heithrio o'r rheoliadau.

**Ymateb**
Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn bod angen yn gyffredinol iddi egluro'r derminoleg a bydd yn ychwanegu'r diffiniad o dir lled-naturiol at y Rheoliadau diwygiedig. Bydd hyn nid yn unig yn gwneud pethau'n fwy clir, ond bydd hefyd yn help i sicrhau bod y Rheoliadau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson a chadarn.

Cafodd rheol y trothwy 25% sy'n pennu'r statws lled-naturiol ac a roddir ar waith yng Nghymru ei datblygu gan arbenigwyr ecoleg ac amaethyddol yng Ngwasanaeth Datblygu Gwledig Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, gan ymgynghori â'r asiantaethau statudol. Nid yw'r diffiniad wedi newid yng Nghymru er 2002 pan gyflwynwyd Rheoliadau AEA gyntaf. Mae'r diffiniad hwn wedi cael ei ddefnyddio hefyd yn y cynllun rheoli tir cynaliadwy, Glastir, yn ogystal ag mewn nifer o gynlluniau blaenorol.


Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn diweddaru'r canllawiau ar gyfer AEA ac yn ceisio darparu rhagor o eglurhad am sut y caiff trefniadau AEA Amaethyddol eu rhoi ar waith mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol, ac ar wefan y llywodraeth.

Yng Nghymru, rhoddir Cyfarwyddeb AEA ar waith drwy amrywiol systemau statudol sy'n effeithio ar gynllunio a datblygu, draenio tir, coedwigaeth, echdynnu dŵr ac ati. Mae Rheoliadau AEA yn berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol ac yn effeithio ar dir sy'n cael ei ystyried yn lled-naturiol a heb ei drin, fel y pennir yn y Rheoliadau. Gall y mathau hyn o dir gynnwys gweirdir asid, gweirdir niwtral a gweirglodd, glaswelltir calchaidd, rhedyn, prysgwydd, ac ati,. Pwrpas proses sgrinio AEA yw penderfynu a yw gweithgaredd arfaethedig yn debygol o effeithio'n sylweddol ar y mathau hyn o dir ac ar yr amgylchedd ehangach.

Bydd arwyddocâd y mathau hyn o gynefin yn cael ei fesur yn unol â'r rhestr o gynefinoedd sy'n flaenoriaeth a nodir yn Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Amcan Llywodraeth Cymru yw amddiffyn ardaloedd heb eu trin a rhai lled-naturiol sydd o bwys cenedlaethol ac atal colli cynefin a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar fioamrywiaeth yng nghyd-destun ehangach amgylchedd Cymru yn sgil gweithgareddau amaethyddol niweidiol. Ni fyddai pob prosiect a gynigid ar dir lled naturiol yn dod o dan gylch gwaith Rheoliadau AEA ac efallai y byddai rhai'n dod o dan drefniadau statudol eraill, megis y gofynion Trawsgydymffurfio, a dibynnu ar y prosiect arfaethedig

**Cwestiwn 2**

**A ydych yn cytuno â'r cynnig i addasu'r diffiniad o brosiectau tir heb ei drin i 'Brosiect ar Dir Lled Naturiol a/neu Dir Heb ei Drin? Os nad, nodwch pam os gwelwch yn dda.**




Roedd 71% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig a oedd, yn eu barn hwy'n adlewyrchu'n well natur y tir sy'n dod o fewn cwmpas rheoliadau AEA. Roedd y 29% a oedd yn weddill yn dweud eu bod yn poeni am y diffyg eglurder wrth ddiffinio'r termau. Roedd yn ymatebydd yn poeni am ffermwyr y bydd eu contractau Glastir pum mlynedd yn dirwyn i ben. O dan y diffiniad arfaethedig newydd, byddai angen iddynt ystyried proses sgrinio AEA cyn chwalu calch neu wrtaith, neu cyn bwriadu gwneud gwaith arall ar eu tir. Holodd rhai yr ymgynghorwyd â hwy a fyddai chwalu calch yn cael ei ystyried yn brosiect amaethyddol, oherwydd nad yw'n cael ei wneud bob blwyddyn.

Mae'n ymddangos bod cryn ddryswch ymhlith tirfeddianwyr ynghylch pa bryd mae angen AEA. Awgrymwyd y dylai ROW arlein gynnwys map / haen sy'n dangos tir lled-naturiol yng Nghymru er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

**Ymateb**

Gan fod y rhan fwyaf yr ymgynghorwyd â hwy o blaid y cynnig, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r newid hwn ar waith er mwyn gwneud y Rheoliadau diwygiedig yn fwy clir. Mae'r term "prosiect tir heb ei drin" wedi creu rhywfaint o ddryswch ac, ar brydiau, efallai fod rhanddeiliaid wedi deall mai ystyr y term oedd tir sydd erioed wedi bod dan reolaeth amaethyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd yng Nghymru wedi gweld rhywfaint o ymyrraeth gan bobl ac felly'n "lled naturiol", yn hytrach na "heb eu trin".

Mae Rheoliadau AEA yn berthnasol i brosiectau sy'n gwneud ardaloedd heb eu trin /lled naturiol yn fwy amaethyddol gynhyrchiol a phrosiectau sy'n ailstrwythuro daliadau gwledig. Mae gwaith rheolaidd megis gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio strwythurau sydd yno'n barod wedi'u heithrio o ofynion

y Rheoliadau. Os bydd calch yn cael ei chwalu ar y tir yn rheolaidd, megis bob dwy neu dair blynedd, fel rhan o drefn reoli arferol y tir, ni fyddai gofyn sgrinio ar gyfer AEA.


Serch hynny, mae chwalu calch yn gallu effeithio'n fawr ar pH y tir, ac felly mae'n gallu newid cyfansoddiad rhywogaethau'r safle a gwella gallu'r tir. Os bydd tirfeddiannwr neu reolwr yn bwriadu chwalu calch ar dir lled naturiol, er enghraifft tir sydd wedi'i gaffael o'r newydd, fe'i cynghorir i ofyn i Lywodraeth Cymru am benderfyniad sgrinio, yn enwedig os bydd y gweithgarwch hwn yn gychwyn ar brosiect mwy o faint.

Nid yw ardaloedd lled naturiol yng Nghymru'n ardaloedd sydd wedi'u dynodi ac nid oes modd eu mapio'n bendant oherwydd bod amgylchiadau amgylcheddol yn newid dros gyfnod ac fe all safleoedd ddychwelyd yn gymharol gyflym i gyflwr lled naturiol. Byddai mapio pob ardal led naturiol nid yn unig yn anodd o safbwynt ymarferol, gallai hefyd awgrymu ein bod yn mynd ati mewn ffordd fwy cyfyng i roi Rheoliadau AEA ar waith. Gan amlaf, bydd prosiectau a gynigir ar safleoedd lled naturiol yn cael bwrw ymlaen. Er 2002, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried 924 o geisiadau ac wedi rhoi penderfyniad cadarnhaol mewn 93% o'r achosion. Mae'r broses sgrinio'n syml, yn ddi-dâl a bydd penderfyniadau'n cael eu rhoi o fewn 35 diwrnod i'r cais. Bydd y penderfyniad sgrinio'n para 3 blynedd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynghori ffermwyr i wneud cais am benderfyniad sgrinio pan fyddant yn bwriadu gwella tir a oedd gynt yn cael ei fapio'n gynefin o dan gytundeb rheoli tir yn gynaliadwy, megis contract Glastir. Mae'n bosibl y bydd cytundeb blaenorol ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy'n awgrymu bod y tir dan sylw'n dod o fewn cylch gwaith Rheoliadau AEA.

**Cwestiwn 3**

**Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu polisi dim trothwy o dan y gyfundrefn AEA. A ydych yn cytuno gyda'r polisi hwn?**




Roedd 71% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oherwydd gall pob darn o dir fod yn amgylcheddol arwyddocaol, ni waeth beth yw maint y clwt o dir na'i leoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau sy'n cael eu hystyried mewn achosion sgrinio a gorfodi rhwng 2-5 hectar o faint. Mae llawer o ecosystemau pwysig ar dir lled naturiol a thir heb ei drin yng Nghymru, e.e. gweirdir a rhostir, yn fach ac yn ddarniog. Felly, gallai gosod trothwy isel hyd yn oed arwain at golli nid dim ond cynefin o bwys lleol, ond hefyd gyfran sylweddol o safleoedd ecolegol o bwys yng nghyd-destun ehangach bioamrywiaeth Cymru.

Serch hynny, awgrymodd 29% o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy drothwyon ar gyfer ardaloedd llai o faint, h.y. <0.1ha. Yn eu barn hwy, byddai hyn yn lleihau biwrocratiaeth ac yn help i ffermwyr reoli eu tir yn fwy effeithlon.

Roedd un ymateb yn amheus ynghylch dilyn ymagwedd bolisi wahanol ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth, o ran rhoi Cyfarwyddeb AEA a'r trothwyon isaf ar waith.

Soniodd un o'r rhanddeiliaid am y berthynas rhwng Cyfundrefn AEA a'r gofynion Trawsgydymffurfio. Mae Rheoliadau AEA yn rhan o'r drefn Drawsgydymffurfio ac, ym marn yr ymatebydd, mae hyn yn golygu bod elfen o "gosbi dwywaith" na fydd yr un sector arall yn ei wynebu. Mae rhoi polisi dim trothwy ar waith mewn gwirionedd yn golygu bod mwy o risg i rywun dorri'r rheoliadau. Roedd yr ymatebydd yn credu hefyd bod gan bob safle o bwys yng Nghymru statws dynodedig a'u bod yn cael eu gwarchod yn annibynnol oddi ar gyfundrefn AEA.

**Ymateb**

Roedd y rhan fwyaf o'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy o blaid y cynnig i gadw at y drefn 'dim trothwy isaf' a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i roi'r polisi hwn ar waith.  Mae Rheoliadau AEA yn cynnig gwarchodaeth statudol rhag gwaith amaethyddol ar gynefinoedd a thir sydd o bwys diwylliannol nad ydynt yn safleoedd dynodedig (e.e. SoDdGA). Llai nag 20% o dir Cymru sy'n safleoedd dynodedig. Gall tir sydd heb ei ddynodi fod yn werthfawr iawn o hyd o safbwynt amgylcheddol. Felly, mae Rheoliadau AEA yn chwarae rhan bwysig yn amddiffyn bioamrywiaeth a thirwedd hanesyddol Cymru. Bydd y polisi dim trothwy'n sicrhau'r warchodaeth angenrheidiol i safleoedd a thir sy'n darparu cynefin arwyddocaol a gwerth hanesyddol pwysig drwy Gymru.

Bydd Cyfarwyddeb AEA yn cael ei rhoi ar waith drwy wahanol gyfundrefnau rheoleiddio sy'n effeithio ar feysydd polisi penodol megis cynllunio, draenio tir, coedwigaeth ac ati. Er y gall y ffordd y rhoddir y polisi ar waith fod yn wahanol yn y gwahanol feysydd hyn, bydd pob cyfundrefn yn dilyn prif egwyddor y Gyfarwyddeb, sef darparu asesiad amgylcheddol digonol o bob prosiect, ar raddfa fawr ac ar raddfa fach, cyn iddynt allu dechrau. Ni fyddai'n briodol inni gyflwyno trothwyon isaf ar gyfer prosiectau amaethyddol, ac ystyried maint ac effaith bosibl y rhan fwyaf o'r achosion a ystyrir o dan Reoliadau AEA. Seilir gweithredu rheoliadau AEA Coedwigaeth ar gyfundrefn wahanol iawn a gwahanol ystyriaethau polisi.

Bydd methu â gwneud cais am sgrinio ar dir heb ei drin, neu dir lled naturiol cyn gwneud gwaith gwella'n golygu bod rhywun yn torri Rheoliadau AEA ac fe all hefyd arwain at dorri gofynion Trawsgydymffurfio gyda golwg ar safonau rhagnodedig Llywodraeth Cymru sy'n gyson â chadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol da.

Gofyniad rheoleiddio Ewropeaidd yw'r gyfundrefn Drawsgydymffurfio sy'n gosod safonau y mae'n rhaid i ffermwyr gadw atynt er mwyn cael taliadau o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredinol (PAC). Mae dwy elfen i Drawsgydymffurfio;

- Gofynion Rheoli Statudol; a
- Safonau ar gyfer cadw tir mewn 'Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da'.

Yr Undeb Ewropeaidd sy'n pennu'r rhwymedigaethau hyn ac mae a wnelont â'r amgylchedd, newid yn yr hinsawdd a chyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da, iechyd y cyhoedd, iechyd a lles anifeiliaid, a iechyd planhigion.


Gallai methu â chyflawni unrhyw un o'r safonau Trawsgydymffurfio arwain at gosb ariannol gyda golwg ar Daliadau Uniongyrchol ffermwr, gan gynnwys o dan y Cynllun Taliadau Sylfaenol.  Mae cael taliadau gan yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys o dan y Cynllun Taliadau Sylfaenol, yn opsiwn sydd ar gael i bob ffermwr sy'n gallu dangos ei fod yn cyflawni'r meini prawf cymhwysedd.  Nid yw'n gynllun gorfodol ac mae cadw at reolau perthnasol y cynllun a'r gofynion deddfwriaethol yn un o amodau cael y taliadau.  Mae'r

gofyniad trawsgydymffurfio cyfredol o dan safon cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da 6, sef parchu cyfundrefn AEA Amaethyddiaeth yn ailddatgan y gyfraith bresennol. Serch hynny, mae'n gweithredu yn y cyd-destun hwn at ddiben sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cydymffurfio â'u rhwymedigaethau gyda golwg ar osod safon sy'n sicrhau bod pridd a deunydd organig yn cael eu cynnal ar safon sy'n gyson â chadw tir sydd wedi elwa yn sgil cronfeydd y Cynllun Taliadau Sylfaenol mewn cyflwr amgylcheddol ac amaethyddol da. Gall methu â chadw at gyfundrefn AEA olygu bod rhywun yn torri'r amodau trawsgydymffurfio gan arwain at gosb ariannol i'r ffermwr dan sylw. Mae hyn yn gwbl ar wahân i'r sefyllfa lle bydd yn rhaid i bob ffermwr lynu at gyfundrefn AEA a wynebu'r cosbau posibl am dorri'r Rheoliadau, sydd, yn hytrach na gorfodi cosbau ariannol, yn ymwneud ag atal effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd yn sgil prosiectau amaethyddol anghyfreithlon ar dir heb ei drin a/neu dir lled naturiol.

Cefnogi'r diwydiant amaethyddol yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Ar yr un pryd, mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am sicrhau bod asedau ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu hamddiffyn a'u cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Cwestiwn 4**

**A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i ganiatáu i Weinidogion Cymru ofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am gamau lliniaru yn ystod y cam sgrinio yn achos prosiectau graddfa fawr, os penderfynir bod angen hynny.**




Roedd 72% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, gan ddweud bod angen rhagor o sylw i brosiectau mwy o faint, oherwydd eu bod yn debygol o effeithio'n fwy ar yr amgylchedd. Serch hynny, gofynnodd un o'r ymatebwyr am ddiffiniad o "brosiect ar raddfa fwy." Oni fyddai hyn yn glir, gallai ffermwyr gael eu “dal” gyda “phrosiect ar raddfa fawr”, ac wedyn bod gofyn iddynt gymryd camau lliniaru yn ystod y cam sgrinio. Byddai hyn yn annerbyniol.

Gwrthodwyd y cynnig gan un o'r ymatebwyr.

Roedd 14% o'r ymatebwyr yn ansicr yn eu hateb. Awgrymwyd y gellid sefydlu safbwynt sylfaenol sef bod gofyn cael Datganiad Amgylcheddol (DA) bob tro yr oedd ansicrwydd ynghylch sgrinio. Argymhelliad un o'r ymatebion oedd y dylid bod yr un mor drylwyr wrth ystyried pob cynnig oherwydd gallai prosiectau a ystyrid yn rhai ar raddfa fach fod yn eithriadol o niweidiol. Teimlai un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy fod y cynnig yn groes i bolisi dim trothwy isaf Llywodraeth Cymru a ystyriwyd yng Nghwestiwn 3.

**Ymateb**


Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn hapus ynghylch cyflwyno camau lliniaru yn ystod y cam sgrinio ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr. Roedd y rhanddeiliaid, yn ddigon teg, yn holi beth fyddai'n cael ei ystyried yn brosiect ar raddfa fawr.

Nod Llywodraeth Cymru yw rhoi Rheoliadau AEA ar waith mewn ffordd gymesur, a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai'n gofyn am gamau lliniaru ychwanegol yn ystod y cam sgrinio. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y gallai prosiectau ar raddfa fach gael effaith fawr, a bod y gwrthwyneb hefyd yn wir. Dyma pam nad yw'n bwriadu diffinio pa bryd y byddai Gweinidogion Cymru'n dibynnu ar ddarpariaeth o'r fath yn y Rheoliadau diwygiedig. Yn hytrach, bydd hyn yn cael ei ystyried yn fater gweithredol, a roddid ar waith yn deg ac a ystyrid fesul achos.

Dim ond os yw'n hanfodol er mwyn ystyried effaith lawn prosiect arfaethedig y tybir ei fod yn arwyddocaol o safbwynt ecolegol a/neu hanesyddol y byddai Gweinidogion Cymru'n gofyn am DA. Gallai DA fod yn ddrud, a dibynnu ar faint a chymhlethdod y gwaith. Bydd angen i'r ymgeisydd dalu am hyn. Mae Llywodraeth Cymru'n credu y byddai'r safbwynt "sgrinio cadarnhaol" sylfaenol a awgrymwyd gan un o'r ymatebwyr, yn rhoi baich diangen na fyddai modd ei gyfiawnhau ar ymgeiswyr. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru'n gwrthod y cynnig hwn.

**Cwestiwn 5**

**A ydych yn cytuno â’r cynnig i alluogi Gweinidogion Cymru i roi caniatâd sgrinio i ran yn unig o brosiect a/neu atodi amodau penodol i’r penderfyniadau sgrinio?**




Roedd y rhan fwyaf, 72% o'r ymatebwyr, yn cytuno â'r cynnig, roedd 14% yn anghytuno ac ni chafwyd ateb gan un ymatebydd. Dywedodd sawl un fod angen mwy o eglurder a rhagor o ganllawiau ynghylch sut y byddai cyfundrefn AEA yn cael ei rhoi ar waith.

Roedd rhai'n meddwl y dylid cymeradwyo cais AEA petai amodau penodol yn cael eu hatodi at y cais, ar ôl negodi â Llywodraeth Cymru, a oedd yn arwain at gynnydd cyffredinol yn statws amgylcheddol tir y fferm.

Roedd un ymatebydd yn poeni y byddai hyn yn cynyddu'r risg o niwed i safleoedd cynefin lled naturiol o bwys yng Nghymru. Yn eu barn hwy, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a deall yn llawn holl fanylion prosiect yn ei gyfanrwydd a'i oblygiadau cyn rhoi cymeradwyaeth rannol neu amodol. Heb hynny, gellid tanseilio proses ac amcanion rheoliadau AEA.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r gefnogaeth eang i'r cynnig hwn a allai symleiddio'r broses sgrinio ac fe allai hefyd leihau nifer yr achosion lle y byddai angen i Weinidogion Cymru ofyn am DA. Credir y byddai'r cynnig newydd yn lleihau'r baich gweinyddol ac y byddai hefyd yn help i roi'r gofynion rheoleiddio ar waith mewn modd cymesur.

Hoffai Llywodraeth Cymru dawelu meddwl rhanddeiliaid na wnaiff y darpariaethau newydd effeithio ar ddilysrwydd a nerth cyfundrefn AEA. Mae gwerthusiad sgrinio AEA yn dilyn gweithdrefnau trwyadl sydd wedi'u hen sefydlu ac sy'n archwilio effaith prosiectau arfaethedig yn y fan a'r lle ac yn ehangach. Ni fydd newid yn y ffordd y caiff prosiectau eu hasesu ar ôl cyflwyno Rheoliadau AEA newydd er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyson o safon yn parhau.

**Cwestiwn 6**

**Rhowch unrhyw sylwadau yr ydych yn dymuno'u rhoi mewn perthynas â’r gofyniad gorfodol newydd hwn.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gyfle i godi nifer o sylwadau pwysig a diddorol. Nododd un ymatebydd mai dim ond mewn 7% o'r holl achosion a ystyrid y byddai Llywodraeth Cymru'n gofyn am DA. Holodd a oedd y rhain yn gwbl angenrheidiol yn y lle cyntaf. Roedd un ymateb yn datgan nad oedd y cynnig hwn yn arbennig o berthnasol i ffermio a phetai trothwy o 50ha a throsodd yn cael ei gyflwyno ar gyfer ystyried DA, y byddai hyn yn fwy na digon i ddiogelu'r amgylchedd.

Gofynnodd ymatebydd arall am ragor o wybodaeth a chanllawiau am derminoleg megis prosiectau 'mawr' ac 'arwyddocaol'.

Pwysleisiodd un o'r ymgyngoreion y byddai Cyfarwyddeb AEA yn caniatáu i gwmpasu fod yn orfodol. Yn eu barn hwy, dylai Llywodraeth Cymru ddangos arweiniad wrth amddiffyn amgylchedd Cymru drwy sicrhau bod cwmpasu'n rhan orfodol o broses AEA.

**Ymateb**

Mae'r ddarpariaeth gwmpasu yng Nghyfarwyddeb AEA wedi'i diwygio drwy gyflwyno gofyniad gorfodol i ymgeiswyr seilio'u DA ar y farn gwmpasu, os ceisiwyd barn o'r fath.  Pwrpas y newid hwn yw rhoi rhagor o sicrwydd i'r ymgeisydd wrth iddo baratoi ei DA yn ogystal â'i helpu i ddeall y materion amgylcheddol pwysig y mae angen i'r datganiad ganolbwyntio arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweld hyn yn newid er gwell a gyflwynir yn y Rheoliadau diwygiedig. Serch hynny, mae'n bwysig cadw hyblygrwydd Rheoliadau AEA ac felly, bydd cwmpasu'n dal i fod yn opsiwn gwirfoddol, gan olygu na fydd y gofyniad newydd yn berthnasol mewn achosion lle bydd yr ymgeisydd yn penderfynu peidio â gofyn am farn gwmpasu.

Byddai'r awgrym y dylid gofyn am DA ar gyfer prosiectau mwy na maint penodol yn unig yn groes i ddyheadau polisi Llywodraeth Cymru. Ar gyfartaledd, maint fferm yng Nghymru yw oddeutu 46.41 ha[1] a maint prosiect a ystyrir o dan Reoliadau AEA ar gyfartaledd yw 16.4 ha.   Roedd rhyw hanner y prosiectau a ystyriwyd o dan AEA amaethyddiaeth rhwng 2002 a 2016 yn llai na 5 ha. Roedd y rhain yn cynnwys nifer fawr o safleoedd amgylcheddol bwysig. Byddai'r 50 ha a awgrymwyd yn fwy na maint cyfartalog ffermydd yng Nghymru ac yn sylweddol uwch na maint cyfartalog prosiectau AEA amaethyddiaeth.

Dim ond pan welid bod yr effaith yn arwyddocaol yn ystod y cam sgrinio y gofynnid am DA. Mae gweithdrefn wedi'i sefydlu a ddilynir bob tro y caiff cais sgrinio'i werthuso. Bydd ymgyngoreion statudol megis Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff lleol a/neu berthnasol eraill yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y prosiect arfaethedig yn cael ei hystyried yn llawn cyn penderfynu.  Hyd yn hyn, rhoddwyd caniatâd i 93% o'r ceisiadau a ystyriwyd. Roedd tystiolaeth gref ynghylch arwyddocâd y safleoedd yr effeithiwyd arnynt yn y 7% o achosion sy'n weddol a oedd yn cyfiawnhau gwneud cais am DA.

**Cwestiwn 7**

**Rhowch unrhyw sylwadau yr ydych yn dymuno'u rhoi mewn perthynas â'r gofyniad gorfodol newydd ynglŷn â defnyddio arbenigwr cymwys ar gyfer cynhyrchu DA.**

Cafwyd nifer o ymatebion ac ymholiadau amrywiol i'r cwestiwn hwn. Roedd un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy'n teimlo y dylai unrhyw un sydd â phrofiad perthnasol digonol ym maes rheoli tir allu darparu'r cyngor arbenigol sy'n ofynnol ar gyfer y DA - ffermwr, coedwigwr neu rywun profiadol sy'n gweithio yng nghefn gwlad. Am y rheswm hwn, ni fyddai angen meddu ar gymwysterau er mwyn asesu ceisiadau AEA mewn ffordd synhwyrol.

---

Llywodraeth Cymru Ffeithiau a Ffigurau Ffermio
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160628-farming-facts-figures-2016-cy.pdf

Awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru baratoi templedi addas ar ei gwefan i gynghori a thywys yr ymgeisydd ynghylch casglu'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer gweithdrefn y DA. Defnyddid templedi Awdurdodau Lleol ar gyfer Datganiadau Dylunio a Mynediad yn enghraifft addas.

Codwyd pryder ynghylch y gost sy'n gysylltiedig â chyflogi arbenigwyr oherwydd fe all hyn ymddangos yn anghymesur â maint prosiectau a gynigir o dan Reoliadau AEA.

Roedd ymatebwyr eraill o blaid y cynnig ond yn holi sut y diffinnid arbenigwr ac a fyddai unrhyw feini prawf yn cael eu pennu o ran cymwysterau neu aelodaeth o gorff proffesiynol megis y Sefydliad Siartredig ar gyfer Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM). Roedd un o'r ymatebion yn holi'n benodol sut y byddai'r gofyniad yn cael ei roi ar waith o safbwynt ymarferol a sut y byddai Gweinidogion Cymru'n monitro a yw'r gofyniad statudol newydd wedi'i gyflawni. Dywedodd yr ymatebydd hefyd fod angen canllawiau ategol ynghylch yr agwedd hon ar y gofynion rheoleiddiol. Yn yr un modd, byddai angen arbenigedd yn ystod pob cam o'r broses AEA, megis y sgrinio a'r cwmpasu, a byddai angen gosod y rhain yn ofynion statudol yn y rheoliadau newydd.

Roedd yr un ymateb yn cyfeirio at yr asiantaethau statudol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n brin iawn o staff a chyllid ar hyn o bryd a bod hyn yn effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rolau statudol, gan gynnwys y rheini sy'n dod o dan Reoliadau AEA.

**Ymateb**

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'r newid gorfodol hwn a gefnogwyd hefyd gan fwyafrif yr ymatebwyr. Y bwriad yw ychwanegu darpariaeth generig at y Rheoliadau newydd a chynnig esboniad mwy manwl am y gofyniad ynghylch arbenigwyr cymwys mewn canllawiau. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y bydd angen mwy o ddiffinio a rhagor o ganllawiau i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei rhoi ar waith yn ddigonol. Mae Rheoliadau AEA eisoes yn cynnig gofynion manwl am DA; serch hynny, bydd cyngor a help ar gael gan dîm AEA Llywodraeth Cymru ac fe ystyrir a oes angen cyhoeddi templed DA arlein.

Mae gwahanol fuddiannau'n perthyn i safleoedd lled naturiol. Gall y rhain fod yn rhai botanegol, sŵolegol, hanesyddol neu'n gyfuniad o'r rhain. Byddai'r arbenigedd y byddai ei angen yn cael ei bennu ar sail nodweddion ecolegol a/neu archaeolegol penodol y safle dan sylw. Er y gall fod gan reolwyr tir a ffermwyr ddigon o brofiad a gwybodaeth am y tir penodol, mae'n bosibl na fyddai ganddynt y wybodaeth arbenigol amrywiol sy'n ofynnol er mwyn cwblhau DA. Pwrpas y gofyniad newydd yw sicrhau bod pob DA a baratoir o dan ofynion AEA o safon broffesiynol uchel gyson a'i bod wedi ystyried pob effaith bosibl yn llawn.

Cwblheir proses sgrinio AEA gan dîm arbenigol sydd â'r cymwysterau a'r profiad arbenigol o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r un fethodoleg wyddonol

yn cael ei rhoi ar waith yn gyson ar gyfer pob achos sy'n cael ei ystyried drwy gydol gwahanol gamau'r weithdrefn AEA. Bydd y gofyniad newydd i ddefnyddio arbenigwr cymwys i baratoi DA yn cryfhau eto'r weithdrefn a'r ffordd y mae'n cael ei gweithredu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y byddai'r sawl sy'n aelod o gyrff proffesiynol ac yn meddu gymwysterau perthnasol yn cael eu hystyried yn bobl sydd â digon o arbenigedd. Rhoddir rhagor o fanylion am y gofyniad hwn yn y canllawiau.

Byddai cost ynghlwm wrth y gofyniad newydd. Gwaith ymgeiswyr fydd penderfynu a fyddai modd cyfiawnhau cost y DA o fewn cyd-destun y prosiect arfaethedig. Mae'n bwysig nodi bod holl broses AEA yn gwbl ddi-dâl, sy'n cynnwys asesiad cychwynnol o'r tir, ac os bydd angen, arolwg ecolegol llawn, sy'n cael ei gwblhau gan arbenigwyr cymwys. Nid oes tâl gweinyddol ynghlwm wrth y cais ac ni fydd gofyn i ymgeiswyr gomisiynu eu harolygon eu hunain cyn cyflwyno'u cais. At hynny, cynigir gwasanaeth cwmpasu am ddim sy'n gallu bod o help mawr wrth benderfynu pa arbenigedd sydd ei angen ar gyfer paratoi'r DA.

Nid yw ystyried a chynnig sylwadau am y pwynt a godwyd ynghylch adnoddau cyrff statudol o fewn cylch gwaith yr ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 8**

**Beth yw eich barn am y cynnig i ymgynghori â'r cyhoedd ar DA arlein yn unig?**

Roedd yr ymatebwyr yn ymrannu'n ddwy garfan ynghylch y cwestiwn hwn; 50% yn cytuno â'r cynnig a 50% yn anghytuno. Y prif bethau yr oedd pobl yn poeni yn eu cylch oedd diffyg mynediad at adnoddau arlein mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a'r gwahaniaethu posibl yn erbyn y rheini sy'n dibynnu ar ddeunyddiau print yn hytrach nag ar y Rhyngrwyd.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn amheus ynghylch yr angen i ymgynghori â'r cyhoedd o gwbl oherwydd efallai na fydd gan bob aelod o'r cyhoedd ddigon o wybodaeth ac arbenigedd i allu gwneud cyfraniad o sylwedd. Gallai hyn arwain at oedi difrifol, camddehongli a chostau diangen i ymgeiswyr, meddai un.

Roedd un o'r ymatebion yn dweud y dylid cynnig canllawiau ynghylch pa bryd y bydd prosiect, yn y cyd-destun amaethyddol, yn cael ei ystyried yn "brosiect arwyddocaol". Roedd yr ymatebydd yn pwysleisio mai ar gyfer prosiectau mawr megis adeiladu ffyrdd a gorsafoedd pŵer niwclear y mae Cyfarwyddeb yr UE wedi'i ysgrifennu ac felly, o'u cymharu â'r rhain nad yw prosiectau amaethyddol yn arwyddocaol. Awgrymodd yr un ymatebydd y dylid cwtogi'r cyfnod ymgynghori â'r cyhoedd sydd ar hyn o bryd yn 70 diwrnod. Dim ond 30 diwrnod o gyfnod ymgynghori sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb AEA.

Awgrym arall gan ymatebydd oedd hwnnw ynghylch trefniadau ar gyfer cyhoeddusrwydd a gwybodaeth arlein. Yn eu barn hwy, dylai hyn fod yn gyson ar draws gwahanol weithdrefnau'r AEA er mwyn i'r cyhoedd a phobl

eraill ymgysylltu â strwythur arlein cyson. Yn ogystal â hyn, maent yn argymell y dylid darparu porth gwybodaeth canolog, sy'n sefydlu canolbwynt cyfeirio canolog ar gyfer yr holl wybodaeth am AEA. Ym marn yr ymatebydd, byddai hyn yn gyfle i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb AEA a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Ymateb**

Ac ystyried y pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch y posibilrwydd o wahaniaethu a diffyg mynediad at adnoddau arlein i lawer sy'n byw mewn ardaloedd diarffordd yng Nghymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chyflwyno'r newid hwn.

Mae Cyfarwyddeb AEA yn berthnasol i amrywiaeth helaeth o brosiectau sydd â'r un gofyniad i asesu eu heffaith yn ddigonol cyn caniatáu iddynt ddechrau. Mae'r Gyfarwyddeb yn cynnig fframwaith sy'n caniatáu i'w hegwyddorion gael eu haddasu ar gyfer y gwahanol weithdrefnau rheoleiddiol, gan gynnwys amaethyddiaeth.

Nid ar faint y prosiect y mae'r pwyslais, er y byddai rhywun yn disgwyl bod rhywfaint o gydberthnas rhwng maint y datblygiad a'i effaith ar yr amgylchedd. Byddai AEA Amaethyddiaeth, yn rhinwedd ei natur, yn ystyried prosiectau ar raddfa lai. Serch hynny, nid maint y prosiect fyddai'r ffactor a fyddai'n penderfynu wrth werthuso'r effaith ar y tir.

Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r 6 wythnos o gyfnod ymgynghori a bennir yn Rheoliadau AEA yn amserlen ddigonol oherwydd ei bod yn rhoi digon o amser i aelodau'r cyhoedd ystyried y DA arfaethedig a chynnig sylwadau, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Nid yw hyn ond ychydig yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol yng Nghyfarwyddeb AEA.


Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu gwell adnoddau arlein a fyddai'n rhoi rhagor o gyngor a chymorth i ffermwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn AEA.  Yr amcan yw gwella'r ffordd y gwireddir polisïau a chynnig rhagor o gymorth, ym mhob maes polisi'n unol â dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Cwestiwn 9**

**Pan roddir caniatâd ar ôl ystyried DA, mae Cyfarwyddeb AEA 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fonitro effaith y prosiect, ac mae hynny'n rhoi mwy o gyfrifoldeb ar yr Awdurdod Rheoli.**

**Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ymweld â'r prif safle dan sylw er mwyn sicrhau bod y prosiect wedi'i gwblhau fel yr amlinellir hynny yn y DA Os bydd angen, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu rhaglen fonitro allai bara am nifer o flynyddoedd.  Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hynny ond yn gymwys i brosiectau cymhleth a phrosiectau graddfa fawr, megis prosiectau ailstrwythuro neu gynlluniau draenio newydd**

**A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon?  Rhowch fanylion am unrhyw gynigion eraill.**




Roedd 28% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r ymagwedd hon, 43% yn anghytuno a 29% heb gynnig dim sylw.

Dywedodd un o'r ymatebwyr, er ei fod yn cytuno â'r cynnig, nad oedd yn berthnasol iawn i'r gymuned amaethyddol. Teimlai y byddai trothwy seiliedig ar ardal a oedd yn canolbwyntio'r monitro ar brosiectau mwy o faint yn opsiwn synhwyrol. Gofynnodd un arall am ragor o fanylion ynglŷn â'r mathau o brosiectau y bydd gofyn eu monitro.

Roedd nifer o'r ymatebion yn dweud na ddylid cysylltu monitro â chymhlethdod a maint prosiectau'n unig. Yn hytrach, dylid seilio gweithdrefnau monitro ar effaith ansoddol yn y tymor byr, canolig a hir, a dylai fod gofyn eu cael ar gyfer pob prosiect sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd. Roedd un o'r ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd cael rhaglen fonitro ar waith ar gyfer pob prosiect sydd ar safleoedd dynodedig/gwarchodedig neu sy'n ffinio ar safleoedd o'r fath. Awgrymwyd hefyd y byddai'n synhwyrol monitro drwy ymweld â safle'n syth ar ôl cwblhau'r


prosiect ac y gellid gwneud y gwaith monitro yn y tymor hwy o bell heb orfod cael llawer o adnoddau.

**Ymateb**

Bydd penderfyniadau ynglŷn â monitro'n cael eu hystyried fesul achos a'u seilio ar bob ffactor perthnasol megis yr effaith gyffredinol a ddisgwylid yn y tymor byr a'r tymor hwy, maint a chymhlethdod y prosiect arfaethedig. Ar ôl asesu'r ymatebion, penderfynodd Llywodraeth Cymru ystyried y mater hwn fel mater gweithredol ac ni fydd yn cyflwyno diwygiad i'r Rheoliadau newydd.

**Cwestiwn 10**

**A ydych yn cytuno â'r cynnig i roi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, ymestyn neu derfynu Hysbysiadau Adfer?**




Roedd 86% o'r ymatebwyr yn cytuno a'r cynnig ac ni chafwyd sylw gan un o'r ymatebwyr.  Roedd un o'r ymatebwyr yn gallu gweld budd o allu diwygio Hysbysiadau Adfer, ond gofynnwyd am ragor o wybodaeth am sut y byddai hyn yn digwydd yn ymarferol. Awgrymwyd y dylai rheolwyr tir allu gofyn am ddiwygiad oherwydd y nhw fyddai'r cyntaf i sylwi ar newidiadau botanegol yn deillio o gamau adfer.

Roeddent yn poeni hefyd am y costau fyddai ynghlwm wrth ddiwygio hysbysiadau. Roedd eraill yn cytuno â'r cynnig ond yn tynnu sylw at yr angen am weithdrefnau rheoli hyblyg er mwyn mynd i'r afael ag egwyddor rheoli addasol o dan reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r gefnogaeth eang i'r cynnig hwn a bydd yn cyflwyno'r newid hwn, sy'n cael ei ystyried yn gam cadarnhaol wrth wneud Rheoliadau AEA yn fwy hyblyg. Bydd hyn yn golygu bod modd ystyried newidiadau yn yr hinsawdd a newidiadau tymhorol, ac ystyried yn llawn i ba raddau y byddai'r tir yn cael ei adfer. Y bwriad yw cydweithio â rheolwyr tir a thirfeddianwyr a chytuno ynghylch y camau adfer sydd fwyaf addas ar gyfer y safle ac ar gyfer arferion amaethyddol y fferm.

**Cwestiwn 11**

**A ydych yn fodlon â’r cynnig i liflinio gweithdrefnau apelio Rheoliadau AEA?**

Roedd yr ymatebwyr i gyd yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor. Roedd un ymateb yn pwysleisio pwysigrwydd safoni cyfnodau apelio ar draws y gwahanol weithdrefnau rheoleiddiol sy'n effeithio ar amaethyddiaeth er mwyn osgoi dryswch a methu dyddiadau cau.


**Ymateb**

Mae'n bwysig bod y broses apelio'n haws ei deall a'i dilyn. Ni fydd y newid arfaethedig yn effeithio ar fecanwaith ac annibyniaeth y broses ond bydd yn golygu bod modd symleiddio'r gofynion statudol drwy ddileu unrhyw ddyblygu ac amwysedd o'r Rheoliadau.

Mae'r mecanweithiau apelio ar draws y gwahanol weithdrefnau rheoleiddiol ar y gweill ac mae hyn yn rhan o adolygiad ehangach o bolisi cyfiawnder ar draws y sefydliad. Nid yw o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn inni ystyried y pwynt hwn rhagor.

**Cwestiwn 12**

**A ydych yn cytuno â’r cynnig i bennu cyfnod apelio o 28 diwrnod ar gyfer yr holl fathau o apeliadau?**




Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd yr ymateb yn gymysg a mynegwyd pryderon penodol. Roedd un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy'n amau'r rhesymwaith dros ddewis 28 diwrnod yn derfyn ar gyfer apelio yn hytrach na'r cyfnod hwy o 3 mis a ganiateir ar hyn o bryd i apelio yn erbyn penderfyniadau ynglŷn â sgrinio a chydsynio. Soniodd hefyd mai'r cyfnod

apelio o dan y Cynllun Taliadau Sylfaenol ar hyn o bryd yw 60 diwrnod. Codwyd y pwynt hwn gan ymatebydd arall.

**Ymateb**
Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'r newid hwn a fydd yn help i symleiddio a safoni'r prosesau apelio o dan Reoliadau AEA.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod cwtogi'r cyfnod apelio ar gyfer penderfyniadau sgrinio a chydsynio'n gymharol sylweddol ac y gall hyn fod yn destun pryder. Serch hynny, bydd gallu ymgeiswyr i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol ar ôl cyflwyno apêl yn parhau, fel sy'n wir o dan y mecanwaith apelio cyfredol. Gan fod cysylltiad clos rhwng statws ecolegol y tir a'i allu i ymadfer, rhywbeth y mae angen iddo ddigwydd yn gyflym yn aml, ni fyddai'n briodol estyn y cyfnod apelio y tu hwnt i 28 diwrnod ar gyfer y rhain. Bydd cwtogi'r cyfnod apelio ar gyfer penderfyniadau sgrinio a chydsynio'n cwtogi'r cyfnod pan fydd statws y tir yn destun anghydfod ac yn aneglur. Bydd hyn o fudd i reolwyr tir a thirfeddianwyr.

Bydd apelau a gyflwynir o dan y Cynllun Taliadau Sylfaenol yn dilyn trefniadau gwahanol i apelau AEA. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried newid mecanwaith apelio AEA a defnyddio'r Paneli Apelio Annibynnol ar gyfer achosion o'r fath. Serch hynny, ni fyddai gan y Panel yr arbenigedd a'r wybodaeth dechnegol angenrheidiol i ystyried achosion AEA. Fel rheol, bydd apêl AEA yn golygu diwrnod llawn o ystyried ac fe'i seilir ar werthuso gwybodaeth gymhleth a helaeth megis adroddiadau ecolegol, asesiadau o samplau pridd a ffotograffau o'r awyr, ymhlith ffynonellau tystiolaeth eraill. Bydd hefyd yn aml yn cynnwys ymweliad â'r safle i wybod lle mae'r ffiniau a beth yw cyflwr y tir. Mae'r Paneli Apelio'n briodol ar gyfer penderfynu a yw'r gofynion rheoleiddio wedi'u torri ond nid ydynt wedi'u harfogi i benderfynu ynghylch gwerth ecolegol neu hanesyddol tir, nac i ystyried perthnasedd y camau adfer a bennwyd mewn Hysbysiad statudol.

Bydd prosesau apelio'n wahanol ar draws yr adran amaethyddiaeth ac fe'u gweithredir o dan wahanol ofynion rheoleiddiol. Mae adolygu polisi cyfiawnder a'r ffordd y caiff ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru'n rhan o adolygiad ehangach a mwy cymhleth sydd y tu allan i gylch gwaith yr adolygiad o'r AEA a'r ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 13**

**A oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses apelio bresennol?**

Dewis y rhan fwyaf o'r ymatebwyr oedd peidio â chynnig dim sylwadau ynglŷn â'r cwestiwn hwn. Dywedodd un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy ei bod yn bwysig rhoi dewis i ymgeiswyr ddilyn y weithdrefn ysgrifenedig neu lafar mewn apelau a sicrhau annibyniaeth lawn y mecanwaith yn ogystal â gwybodaeth dechnegol y sawl sy'n cynnal yr apêl. Roedd rhai'n poeni ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai Llywodraeth Cymru'n codi tâl am apelau yn y dyfodol. Roedd yr ymateb yn pwysleisio na ddylai fod dim taliadau ychwanegol ynghlwm wrth y broses apelio oherwydd y gall fod yn gostus eisoes i apelwyr fynd drwy'r broses bresennol.

**Ymateb**

Ni fydd y mecanwaith apelio'n newid yn sylweddol a bydd modd penderfynu ynghylch apelau o hyd o dan y weithdrefn ysgrifenedig a'r weithdrefn lafar. Mae'r broses apelio bresennol wedi'i datblygu a'i sefydlu'n unol â'r gofynion rheoleiddiol a dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol - yr hawl i dreial teg, sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Nid oes cynlluniau i gyflwyno taliadau am apeliadau AEA a bydd y rhain yn cael eu hystyried o hyd ar draul Llywodraeth Cymru. Yr unig gost i ymgeiswyr fyddai honno sy'n gysylltiedig â chost cynrychiolaeth gyfreithiol, os byddant yn dewis defnyddio cynrychiolaeth o'r fath yn yr apêl.

**Cwestiwn 14**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i Reoliadau AEA. Os oes gennych unrhyw bryderon eraill nad ydym wedi delio â hwy yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.**

Defnyddiwyd y lle hwn gan yr ymatebwyr i gynnig sylwadau ac adborth ychwanegol am y ffordd y byddai'r weithdrefn AEA yn gweithio. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod dryswch o hyd ynghylch gofynion AEA a phwysigrwydd y Rheoliadau o ran gwarchod ardaloedd â chynefin lled naturiol yng Nghymru. Dywedodd un o'r rhai yr ymgynghorwyd a hwy y dylai fod haen o ardaloedd lled naturiol ar fap rhyngweithiol RPW oherwydd y byddai hyn yn help i ffermwyr wybod a oedd angen iddynt wneud cais am sgrinio AEA.

Rhoddwyd ymateb yn yr ymgynghoriad a oedd yn dweud bod safleoedd a chynefinoedd o bwys yng Nghymru wedi'u dynodi a'u gwarchod eisoes yn annibynnol oddi ar weithdrefn AEA.

Roedd un o'r ymatebwyr yn teimlo bod Llywodraeth Cymru'n darlunio ffermio mewn ffordd negyddol gan wneud honiadau anghywir am effaith dwysáu dulliau amaethyddol a llai o ddefnydd ar ddulliau ffermio traddodiadol yn y ddogfen ymgynghori. Roedd yr ymatebydd yn dadlau bod llawer o ffermwyr yn

meddwl bod gweithdrefn AEA yn feichus ac, yn wir, yn rhwystr rhag dilyn llawer o arferion ffermio traddodiadol. Roedd yr un ymateb yn dweud bod y gymuned ffermio'n barod i ddilyn arferion rheoli cynaliadwy, a bod poblogrwydd Glastir yn dystiolaeth o hyn.

Soniodd nifer o'r ymatebwyr am effaith bosibl refferendwm yr UE ar ddeddfwriaeth amgylcheddol megis AEA yn y dyfodol. Holodd un eto am ddyfodol Rheoliadau AEA yng ngoleuni'r heriau sydd ar y gorwel o ran twf y boblogaeth a diogelwch y cyflenwad bwyd. Yn eu barn hwy, mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i edrych ar y darlun tymor hir sy'n gydnaws â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, megis y nod o wneud Cymru'n fwy cyfrifol ar raddfa fyd-eang. Nid yw rhoi Cyfarwyddeb EAE ar waith, sy'n gallu golygu rhoi'r gorau i gynhyrchu amaethyddol ar dir, yn cydweddu â'r dyletswyddau deddfwriaethol newydd a nodau tymor hwy amaethyddiaeth.

Roedd yr un ymatebydd yn poeni hefyd bod Llywodraeth Cymru'n mynd y tu hwnt i ofynion y Gyfarwyddeb wrth roi Rheoliadau AEA ar waith.

Pwynt arall a godwyd oedd hwnnw am agwedd "cyllido'n llawn" gweithredu Rheoliadau AEA, fel y'i nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebydd hwn yn meddwl bod yr honiad hwn yn gamarweiniol oherwydd na fyddai Llywodraeth Cymru'n cael codi am broses statudol beth bynnag.

Roedd un o'r ymatebwyr yn annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwell synergedd rhwng Rheoliadau AEA Amaethyddiaeth a Rheoliadau AEA Cynllunio. Byddai hyn yn gwella'r cydweithredu rhwng polisïau ac yn rhoi mwy o warchodaeth i'r amgylchedd, yn enwedig pan fydd datblygiadau cynllunio'n effeithio ar amaethyddiaeth, er enghraifft prosiectau dwys ym maes ffermio da byw a phrosiectau dyfrio. Soniodd yr un ymatebydd fod angen gwell cydweithio rhwng AEA Amaethyddiaeth a phroses ymgeisio a dyfarnu'r Cynllun Grant Cynhyrchu'n Gynaliadwy hefyd.

Roedd sylw arall yn ymwneud â gwarchod nodweddion sy'n cael eu rheoli drwy ddulliau anamaethyddol, megis pyllau dŵr ar dir sydd wedi'i drin. Pwysleisiodd bwysigrwydd cynefinoedd pyllau dwr sydd hefyd yn cael eu rhestru'n gynefinoedd â blaenoriaeth yn Atodlen 7 o Ddeddf yr Amgylchedd 2016. Mae gweithgareddau amaethyddol yn gallu niweidio pyllau dŵr hefyd ac roedd yr ymateb yn awgrymu y dylid eu cynnwys yn y weithdrefn AEA ac yn y canllawiau.

**Ymateb**

Nod Llywodraeth Cymru yw rhoi mwy o eglurder yn y Rheoliadau newydd, symleiddio rhai o'r prosesau a gwneud y Rheoliadau'n fwy cadarn ac yn haws eu deall. Bydd y canllawiau AEA yn cael eu diweddaru i helpu defnyddwyr i ddeall y gofynion rheoleiddiol. Yn ogystal â hyn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru ar gael o hyd i ateb cwestiynau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ynglŷn â sut y rhoddir gweithdrefn AEA ar waith.

Byddai mapio ardaloedd lled naturiol yn gywir yn dasg anodd oherwydd bod tir yn newid yn gyflym iawn. Ym marn Llywodraeth Cymru, byddai creu mapiau proffwydol nid yn unig yn draul ar lafur ac adnoddau, byddai hefyd yn tarfu ar roi Rheoliadau AEA ar waith yng Nghymru. Yr unig ffordd o bennu'n gywir beth yw statws lled naturiol a phwysigrwydd ecolegol a/neu hanesyddol tir yw drwy ymweld â safle a chynnal arolwg ecolegol gwyddonol. Gallai map proffwydol o ardaloedd lled naturiol ddarparu gwybodaeth gamarweiniol ac anghywir, ond gallai tirfeddianwyr a rheolwyr tir ddal i'w ystyried yn ddiffiniol.

Yn anad dim, proses sgrinio yw gweithdrefn AEA, nid rhwystr rhag ffarmio. Profir hyn drwy'r data ystadegol a gasglwyd ers cyflwyno'r Rheoliadau yn 2002. Nid yw statws lled naturiol safle'n golygu'n awtomatig nad oes modd ei wella ac, fel y dywedwyd uchod, mae'r rhan fwyaf (93%) o'r ceisiadau a gafwyd hyd yn hyn wedi'u cymeradwyo o dan broses sgrinio AEA. Felly, nid yw'r Rheoliadau'n gwahardd pob math o weithgareddau penodol a dulliau ffermio. Yn hytrach, bydd effaith bosibl prosiectau amaethyddol penodol ar ddarn penodol o dir a'r amgylchedd ehangach yn cael ei phwyso a'i mesur a dim ond gweithgareddau a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y rhain a fydd yn cael eu hatal. Yn hynny o beth, gall gweithdrefn AEA warchod safleoedd sydd â chynefinoedd o bwys cenedlaethol a thirwedd hanesyddol Cymru.

Gwarchod asesau naturiol a bioamrywiaeth Cymru yw un o'r prif egwyddorion sy'n tywys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae newid yn yr hinsawdd, poblogaeth sy'n tyfu a diogelwch y cyflenwad bwyd yn heriau mawr yr ydym yn eu hwynebu ac mae'n hanfodol inni ddatblygu ymagwedd gyfannol at fynd i'r afael â'r rhain gan sicrhau ar yr un pryd nad ydym yn dihysbyddu ac yn colli ein hadnoddau naturiol. Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu llwyddiant cynllun gwirfoddol Glastir sy'n rhoi profiad gwerthfawr ac yn enghraifft o arferion rheoli tir yn gynaliadwy y gall y diwydiant ffermio adeiladu arnynt yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ond mae'n ddyletswydd arni o hyd i drosi Cyfarwyddeb AEA a'i gweithredu tra bo'r Deyrnas Unedig yn dal yn un o aelod Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Nid yn unig y mae Rheoliadau AEA yn trosi Cyfarwyddeb AEA yng Nghymru, maent hefyd yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol ac yn cyflawni agwedd bwysig ar gyflawni amcanion ehangach o dan nodau cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newid i'r fframwaith rheoleiddiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael yn swyddogol â'r Undeb Ewropeaidd yn gofyn ystyried y polisi eto ac ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yng Nghymru.

Barn Llywodraeth Cymru yw y dylid rhoi gweithdrefn AEA ar waith yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb yng Nghymru.

Ni fydd pob gweithdrefn statudol yn cael ei rhoi ar waith yn ddi-dâl ac mae llawer o enghreifftiau lle bydd llywodraeth leol neu'r llywodraeth ganolog yn codi ffioedd gweinyddol. Er enghraifft, mae set o ffioedd o fewn y broses gynllunio a bydd apelau'r Cynllun Taliadau Sengl hefyd yn codi ar ymgeiswyr

am bob apêl a gyflwynir ganddynt. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo cost sgrinio ac apelio o dan Reoliadau AEA ac nid oes dim cynlluniau ar hyn o bryd i newid dim o'r trefniadau presennol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno ei bod yn hanfodol sicrhau gwell cydweithredu rhwng gwahanol weithdrefnau AEA a chynlluniau grantiau er mwyn cyflawni'r gofynion rheoleiddiol a gwella'r warchodaeth i asedau amgylcheddol yng Nghymru, yn unol ag amcanion y dull Rheoli Adnoddau Naturiol. Mae i Reoliadau AEA gylch gwaith a swyddogaeth benodol a'r nod yw sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gytbwys sydd o fudd i amaethyddiaeth ac i'r amgylchedd yng Nghymru.